## ATODLEN 1

Rheoliad 5(2)

Gwneud cais

**Ceisiadau o dan adran 19(4)(b): diwygio cofrestr o dir comin neu feysydd tref neu bentref**

**1.**—(1) Rhaid i gais a wneir o dan adran 19(4)(b) o Ddeddf 2006 gynnwys—

(a) datganiad o'r diben (sef un o'r rhai a ddisgrifir yn adran 19(2) o Ddeddf 2006) y gwneir y cais ar ei gyfer;

(b) rhif yr uned gofrestr ac, i'r graddau y mae'n berthnasol i'r gwall neu'r mater arall yn y gofrestr y mae'r cais yn ceisio ei gywiro, rhif cofnod yr adran hawliau, yn y gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi;

(c) tystiolaeth o'r gwall neu'r mater arall yn y gofrestr y mae'r cais yn ceisio ei gywiro; a

(d) disgrifiad o'r diwygiad a geisir yn y gofrestr.

**Ceisiadau o dan Atodlen 2: tir comin heb ei gofrestru neu dir wedi ei gam-gofrestru**

**2.**—(1) Rhaid i gais a wneir o dan Atodlen 2 i Ddeddf 2006, at y diben o unioni tir comin heb ei gofrestru neu dir comin a gam-gofrestrwyd o dan Ddeddf 1965, gael ei wneud ar neu cyn 4 Mai, 2032.

(2) Rhaid i gais a wneir o dan Atodlen 2 i Ddeddf 2006 gynnwys disgrifiad o'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

(3) Mewn cais a wneir o dan baragraff 2 neu 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006, ni chaiff y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef gynnwys tir sydd wedi ei orchuddio gan adeilad neu sydd o fewn cwrtil adeilad os yw'r holl gydsyniadau adeiladu angenrheidiol wedi eu cael (ac y darperir tystiolaeth o gydsyniadau o'r fath) ac nad yw perchennog y tir hwnnw yn cydsynio i'w gofrestru.

(4) Rhaid i gais a wneir o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 gynnwys—

(a) tystiolaeth o gymhwysiad y paragraff hwnnw, fel y'i disgrifir ym mharagraff 2(2) o'r Atodlen honno, i'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

(b) copi o unrhyw ddeddfiad neu gynllun y cyfeirir ato ym mharagraff 2(2)(b) o'r Atodlen honno, y mae'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn cael ei reoleiddio, ei gydnabod neu ei ddynodi drwyddo, neu y mae'n ddarostyngedig iddo;

(c) tystiolaeth, os yw'n gymwys, bod unrhyw gydsyniad y cyfeirir ato o dan is-baragraff (3) wedi ei roi.

(5) Rhaid i gais a wneir o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 gynnwys—

(a) tystiolaeth o gymhwysiad y paragraff hwnnw, fel y'i disgrifir ym mharagraff 3(2) o'r Atodlen honno, i'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

(b) copi o unrhyw ddeddfiad y neilltuwyd y tir ganddo neu oddi tano (ac y mae'n parhau i gael ei neilltuo), gan gynnwys unrhyw ddyfarniad; ac

(c) tystiolaeth, os yw'n gymwys, bod unrhyw gydsyniad y cyfeirir ato o dan is-baragraff (3) wedi ei roi.

(6) Rhaid i gais a wneir o dan baragraff 4, 5, 6, 7, 8 neu 9 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 gynnwys tystiolaeth o gymhwysiad y paragraff priodol, fel y'i disgrifir ym mharagraff 4(2), 5(2), 6(2), 7(2), 8(2) neu 9(2) o'r Atodlen honno, i'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef.